**Asesiad Effaith Cryno – adolygiadau wythnosol rhwng 9 Rhagfyr a 24 Rhagfyr 2021**

## Cyflwyniad

Nod y ddogfen hon yw cofnodi asesiad o effaith y cyfyngiadau a fydd o bosibl yn cael eu rhoi ar waith neu'n cael eu nodi yn ystod yr adolygiadau wythnosol a gynhelir rhwng 9 Rhagfyr 2021 a 24 Rhagfyr 2021 yng ngoleuni ymddangosiad amrywiolyn Omicron.

## Y Cefndir Deddfwriaethol

Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym ar 26 Mawrth 2020, a chawsant eu disodli wedyn gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Rhif 3) a (Rhif 4) (Cymru) 2020. Mae modd gweld fersiwn wedi'i chydgrynhoi o'r Rheoliadau diweddaraf ar LLYW.CYMRU.

Mae'r Asesiad Effaith Cryno hwn yn ymwneud â'r diwygiadau posibl a wnaed i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 o ganlyniad i'r broses Adolygu 21 Diwrnod rhwng 9 Rhagfyr 2022 a 17 Rhagfyr 2022.

## Adolygu'r rheoliadau cyfyngiadau

Rhaid adolygu'r Rheoliadau bob tair wythnos yn unol â'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf. Oherwydd y bygythiad uniongyrchol o ganlyniad i ymddangosiad amrywiolyn Omicron a'r cyfnod cyn y Nadolig. Byddai'r cyfyngiadau posibl yn dod i rym ar 26 Rhagfyr 2021. Dyma'r diwygiadau i'r cyfyngiadau:

i. Cyfyngu ar weithgareddau a digwyddiadau, 30 o bobl dan do a 50 o bobl yn yr awyr agored
ii. Rheol 6 a mesurau ychwanegol ar gyfer mangreoedd trwyddedig
iii. Gweithio gartref lle bo hynny'n rhesymol ymarferol
iv. Clybiau nos yn gorfod cau

### i. Cyfyngu ar weithgareddau a digwyddiadau, 30 o bobl dan do a 50 o bobl yn yr awyr agored

Bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu harwain gan gyngor gwyddonol, ac os tybir bod angen byddant yn ailgyflwyno cyfyngiadau ar ddigwyddiadau mawr dan do ac yn yr awyr agored o 6am ar 26 Rhagfyr 2021. Bydd hyn yn cynnwys y nifer fwyaf o bobl sy'n cael cwrdd mewn digwyddiad dan do yw 30, a 50 yn yr awyr agored. Bydd eithriadau ar gyfer chwaraeon tîm, lle gall hyd at 50 o bobl wylio yn yr awyr agored yn ychwanegol at y rhai sy'n cymryd rhan. Mae eithriad hefyd ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc o dan 18 oed.

Os byddant yn cael eu rhoi ar waith, bydd y cyfyngiadau hyn yn cael eu hadolygu a byddant yn cael eu llacio cyn gynted ag y bydd y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn caniatáu hynny.

EFFEITHIAU AR LESIANT

Mae effeithiau negyddol mawr yn gysylltiedig â chyfyngu ar allu pobl i gymdeithasu a chydgasglu. Mae'r cyfyngiadau ar gapasiti dan do ac yn yr awyr agored yn cael effaith fawr ar y sector digwyddiadau yn benodol. Mae'r What Works Centre for Wellbeing yn nodi tystiolaeth gref y gall celfyddydau cyfranogol, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol wella llesiant pan fyddant yn dod â chyfranogwyr at ei gilydd yn yr un gofod ffisegol[1].

Bydd caniatáu i lai o bobl barhau i fynd i ddigwyddiadau dan do ac yn yr awyr agored yn helpu i liniaru'r effeithiau hyn. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i weithgareddau chwaraeon ar lawr gwlad a fydd yn parhau i gael digwydd o fewn y terfynau arfaethedig. Fodd bynnag, ni fydd llawer o ddigwyddiadau gyda thorfeydd yn cael parhau. Mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar lesiant gan na fydd pobl yn gallu mynychu digwyddiadau.

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau, a gweithgarwch corfforol a chwaraeon yn neilltuol, yn chwarae rhan yn y gwaith o leihau unigrwydd a theimlo'n ynysig, cefnogi cenedl iach ac egnïol, ac mae'n rhan annatod o'r agenda ataliol ehangach ar draws ystod o feysydd portffolio traws-lywodraethol. Mae tystiolaeth wyddonol dda yn nodi y gall bod yn gorfforol egnïol ein helpu i fyw bywydau iachach a hapusach. Gall gweithgarwch corfforol rheolaidd leihau'r risg o ddioddef llawer o gyflyrau cronig gan gynnwys clefyd coronaidd y galon, strôc, diabetes math 2, dementia, rhai mathau o ganser, gordewdra, problemau iechyd meddwl a chyflyrau cyhyrysgerbydol.

Yn yr haf 2021, roedd Traciwr Teimladau Defnyddwyr Covid-19 y Deyrnas Unedig wedi gofyn i drigolion y Deyrnas Unedig pa fathau o weithgareddau maen nhw'n fwy neu'n llai tebygol o'u gwneud o'u cymharu â'r arfer dros y misoedd nesaf. Mae'r data diweddaraf yn dangos cynnydd yn y lefelau ymgysylltu a fwriedir gydag 'adloniant, arlwyo a digwyddiadau' (e.e. bwytai, sinemâu, gwyliau ac ati) wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi. Roedd y bwriad ymysg trigolion y Deyrnas Unedig wedi cyrraedd lefelau niwtral net am y tro cyntaf ers dechrau'r arolwg,[2] ac o ddechrau mis Mai, dywedodd trigolion Cymru eu bod yn uwch na'r bwriad arferol ar gyfer y math hwn o weithgaredd.[3] Roedd hyn yn rhoi syniad o bwysigrwydd mynd i'r mathau hyn o weithgareddau, felly mae unrhyw gyfyngiadau ar y rhain yn debygol o gael effaith negyddol ar lesiant.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Ar gyfer y digwyddiadau sy'n gallu parhau, mae'r newidiadau'n caniatáu i bobl fynychu yn unol â'r cyfyngiadau. Fodd bynnag, bydd angen canslo neu ohirio nifer fawr o ddigwyddiadau oherwydd efallai na fydd yn ymarferol iddynt fwrw ymlaen heb

---

[1] https://whatworkswellbeing.org/blog/places-spaces-and-loneliness-what-matters-for-participatory-art-and-sport/?mc_cid=c975bde8f8&mc_eid=e4236b0dbe

[2] VisitBritain Covid-19 Consumer Sentiment Tracker 14-18 Mehefin 2021

[3] Croeso Cymru Arolwg tracio defnyddwyr twristiaeth Covid-19 6 Ebrill-9 Mai 2021

dorfeydd llawn. Roedd y rhan fwyaf o theatrau, er enghraifft, yn dal ar gau o dan lefel rhybudd 2 am fod angen capasiti o 80%+ arnynt i fantoli'r cyfrifon. Mae'r ystadegau canlynol yn rhoi trosolwg o'r Sector Digwyddiadau[4] sy'n cynnwys y rhan fwyaf o fusnesau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol.

Roedd 23,000 o bobl mewn gwaith yn 2019 yn y sector digwyddiadau yng Nghymru (1.7% o gyfanswm cyflogaeth Cymru). O'i gymharu â Phrydain Fawr yn gyffredinol (2.4%), roedd gan Gymru gyfran is o gyflogaeth yn y sector. Yng Nghymru, roedd y lefelau cyflogaeth uchaf yn Ne-ddwyrain Cymru, gyda 12,000 neu 1.8% o'r cyfanswm cyflogaeth. Roedd y sector yn cyflogi 6,000 o bobl yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru (1.6% o'r cyfanswm cyflogaeth) a 4,500 yng Ngogledd Cymru (1.5% o'r cyfanswm cyflogaeth).

Roedd 2,390 o fentrau yn y sector digwyddiadau yng Nghymru yn 2020, tua 2.3% o gyfanswm y mentrau. Mae hyn yn cymharu â 2.7% o'r holl fentrau ar lefel y DU ar gyfer y sector. Roedd y nifer uchaf o fentrau digwyddiadau (1,130) yn Ne-ddwyrain Cymru, yna Canolbarth a De-orllewin Cymru (725) a Gogledd Cymru (535). Mae'r mwyafrif (85%) o fentrau yn y sector digwyddiadau yng Nghymru yn cael eu dosbarthu fel microfusnesau (sy'n cyflogi 0-9 o bobl), sydd ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer pob sector (89%).

Y consensws ymysg economegwyr sydd wedi astudio llwybr yr argyfwng yw bod y Cynllun Cadw Swyddi/Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig wedi bod yn gwbl hanfodol o ran diogelu swyddi yn ystod y cyfnodau o gyfyngiadau. Felly, yn absenoldeb cymorth gan y llywodraeth, mae cyfyngiadau sy'n gorfodi busnesau i gau, naill ai drwy ofynion cyfreithiol neu hyfywedd, yn gallu arwain at effaith negyddol llawer mwy ar lefelau cyflogaeth nag yr ydym wedi'i weld yn ystod y pandemig hyd yma.

Mae cymorth ariannol, gan gynnwys pecyn o £120m i gefnogi busnesau manwerthu, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth ledled Cymru, ochr yn ochr â'r Gronfa Adferiad Diwylliannol (CRF) gwerth £15.4m a'r Gronfa Chwaraeon Gwylwyr (SSF) gwerth £3m wedi cael eu darparu.

Mae'r pecyn o £120m yn cynnwys cronfa fwy ychwanegol yn benodol ar gyfer busnesau lletygarwch a digwyddiadau a gafodd eu cau neu rai yr effeithiwyd arnynt yn ddifrifol.

Hyd yn oed â'r cymorth hwn, gall yr amserlenni sy'n gysylltiedig â sefydlu'r cynllun hwn olygu bod busnesau ar gau am fwy na mis cyn cael arian i dalu cyflogau staff. Ychydig iawn o gronfeydd wrth gefn sydd gan lawer o fusnesau yn y sectorau yr effeithir arnynt i dalu costau o'r fath yn y cyfamser. Gallai hyn olygu bod rhai busnesau'n penderfynu diswyddo gweithwyr, neu ddim yn gallu talu eu staff yn ystod y cyfnod hwn. Efallai y bydd effaith ychwanegol ar lety hunanarlwyo i lai na 30 o bobl mewn grwpiau; er nad yw hyn o bosibl yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, efallai y bydd y cyfyngiadau ehangach yn effeithio'n anuniongyrchol arnynt. Ni fydd busnesau

[4] Wedi'u diffinio fel 90: Gweithgareddau creadigol, celfyddydol ac adloniant, 799: Gwasanaethau cadw seddi eraill a gweithgareddau cysylltiedig, 823: Trefnu confensiynau a sioeau masnach, 931: Gweithgareddau chwaraeon, 5629: Gweithgareddau gwasanaeth bwyd eraill, 9329: Gweithgareddau adloniant a hamdden eraill

llety hunanarlwyo ar gyfer llai na 30 o bobl mewn grwpiau yn gymwys i gael cymorth gan y Gronfa Cadernid Economaidd.

Mae cyflogeion yn y sector hwn yn fwy tebygol o fod ar gyflog isel gyda llawer o staff yn ennill y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu ychydig mwy na hynny. Mae pryderon wedi cael eu codi ynglŷn ag effaith niweidiol y coronafeirws ar gyllid aelwydydd tlotach, yn enwedig rhai lle mae eu haelodau'n gweithio mewn sectorau sydd wedi cau. Mae'r aelwydydd hyn yn llai tebygol o allu lleihau eu gwariant yn sylweddol o ganlyniad i'r coronafeirws nag aelwydydd mwy cyfoethog, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn ariannu eu gwariant yn ystod y cyfyngiadau symud drwy ddefnyddio cynilion (a all fod yn gyfyngedig) a'u bod felly'n cronni dyledion.[5] Mae'r rhai sydd ar incwm is wedi bod yn fwy tebygol o weld eu hincwm yn disgyn, ac mae gweithwyr ar gyflogau is wedi bod yn fwy tebygol na'r rhai sydd ar gyflogau uwch o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu wedi colli eu swyddi.[6]

Mae'n debygol hefyd y bydd effeithiau economaidd eilaidd o ganlyniad i'r ffaith na fydd nifer o ddigwyddiadau'n gallu cael eu cynnal. Fodd bynnag, mae arwyddion eisoes o newid ymddygiad cefndirol mewn ymateb i ymddangosiad Omicron. Mae Wave 45 (ar gyfer y cyfnod rhwng 29 Tachwedd a 12 Rhagfyr 2021[7]) o Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Ganfyddiadau ac Amodau Busnes (BICS) yn dangos bod 24.0% o fusnesau yng Nghymru wedi dweud bod trosiant wedi gostwng hyd at 50% o'i gymharu â disgwyliadau arferol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn. Dyma'r uchaf o blith unrhyw un o wledydd y Deyrnas Unedig neu ranbarth yn Lloegr. Mae hyn yn awgrymu y byddai gweithgarwch economaidd yn y sectorau hyn yn debygol o ostwng i ryw raddau, hyd yn oed heb gyfyngiadau cyfreithiol. Felly, mae'n anodd amcangyfrif effaith y cyfyngiadau hyn yn gywir.

Mae digwyddiadau'n gweithredu fel sbardun ar gyfer twristiaeth, lletygarwch, y gadwyn gyflenwi a chynhyrchwyr bwyd. Felly, os na ellir cynnal digwyddiadau, bydd hyn yn debygol o arwain at ostyngiad mewn gweithgarwch economaidd yn y sectorau cysylltiedig hyn. Y gwariant cysylltiedig gan fynychwyr digwyddiadau yn 2019 oedd:

- £220m ar ymweliadau diwrnod hamdden domestig 3+ awr (5% o'r gwariant ar ddiwrnod domestig), ac amcangyfrif o £35m ar deithiau dros nos domestig (2% o'r gwariant dros nos domestig), lle mai digwyddiad chwaraeon yw'r prif weithgaredd.
- £88m ar ymweliadau diwrnod hamdden domestig 3+ awr (2% o'r gwariant ar ddiwrnod domestig), ac amcangyfrif o £105m ar deithiau dros nos domestig (6% o'r gwariant dros nos domestig), lle mai digwyddiad diwylliannol/celfyddydau yw'r prif weithgaredd.
- £21m ar deithiau dros nos domestig ar gyfer digwyddiad busnes (sef 15% o'r holl deithiau a gwariant busnes dros nos domestig, a 1.2% o'r holl wariant dros nos domestig).
- Nid oes data ar lefel Cymru ar deithiau diwrnod busnes domestig, ond mae gwerth marchnad y Deyrnas Unedig tua £16bn (data GBDVS 2018, a gynhyrchwyd ar gyfer Eurostat).

[5] Bangham & Leslie (2020) Rainy days: An audit of household wealth and the initial effects of the coronavirus crisis on saving and spending in Great Britain. Resolution Foundation.
[6] Resolution Foundation: Incymau, cynilion a gwariant drwy argyfwng y coronafeirws Tachwedd 2020
[7] Nid yw BICS yn cynnal set gyson o gwestiynau ar gyfer yr arolwg bob pythefnos.

- £72m ar deithiau busnes rhyngwladol (pob diben busnes – dim digon o fanylion yn y data i nodi 'digwyddiadau busnes'), sef 14% o'r gwariant yng Nghymru gan ymwelwyr rhyngwladol.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Gallai'r gostyngiad posibl yn nifer y bobl sy'n symud effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd aer wrth i bobl o bosibl ddewis teithio llai a theithio pellteroedd byr yng Nghymru ac i Gymru. Ar y llaw arall, gall y sefyllfa bresennol o ran iechyd a chapasiti cyfyngedig trafnidiaeth gyhoeddus olygu bod mwy yn defnyddio cerbydau preifat a bydd llai yn rhannu ceir, a gall hynny gael effaith negyddol ar ansawdd yr aer. Mae teithio llesol yn cael ei hyrwyddo'n eang, ond nid yw hyn yn debygol o fod yn ymarferol ar gyfer pellteroedd hirach.

Mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer yn ystod y pandemig. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

ASESIADAU O'R EFFAITH

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn caniatáu i hyd at dri deg o bobl gymryd rhan mewn digwyddiad dan do, a hyd at 50 o bobl yn yr awyr agored.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oed (meddwl am wahanol grwpiau oedran)* | *Cadarnhaol:* Drwy sicrhau bod gweithgareddau a digwyddiadau'n dal i allu cael eu cynnal (er bod hynny ar lefel is): Bydd pobl o bob oed yn elwa, yn enwedig y rheini sy'n cael | Mae amrywiaeth o ddata arolwg yn awgrymu mai pobl iau (18-29 oed) yw'r mwyaf tebygol o boeni am eu hiechyd meddwl, a'u bod yn fwy tebygol o deimlo'n | Mae sicrhau bod digwyddiadau a gweithgareddau'n dal i allu cael eu cynnal yn ceisio lleihau'r posibilrwydd y bydd pobl yn cael eu hynysu'n llwyr.<br><br>Mae canllawiau ar gael ynghylch:<br><br>• y risgiau uwch sy'n gysylltiedig â phobl yn cwrdd dan do a sut orau i ddiogelu yn erbyn trosglwyddo'r feirws (gan gynnwys cadw pellter |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| | eu hynysu oddi wrth eu teulu a ffrindiau; a phobl agored i niwed, gan gynnwys plant, gan liniaru effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd neu allgáu digidol.<br><br>*Negyddol:* Efallai y bydd pobl o bob oed, ond yn enwedig pobl hŷn, yn poeni am fwy o risgiau wrth i bobl barhau i gwrdd dan do mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio yn ystod ton bresennol yr amrywiolyn Omicron.<br><br>Hefyd, gallai fod effeithiau ychwanegol ar iechyd meddwl a lles pobl o bob oed, yn enwedig os oes rhaid canslo neu newid rhai gweithgareddau neu | ynysig na grwpiau eraill.<br><br>Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o fod yn poeni am eu hiechyd a'r risg o ddal COVID-19. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r grŵp oedran hwn wedi cael y ddau ddos o'r brechlyn yn ogystal â'r dos atgyfnerthu, a allai leddfu rhai o'r pryderon. | cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb, hylendid dwylo da ac awyru da);<br><br>• y risgiau ychwanegol i'r rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol;<br><br>• sut gall busnesau a threfnwyr gweithgareddau/digwyddiadau alluogi gweithgareddau arfaethedig i gael eu cynnal yn ddiogel, gan gynnwys cynnal asesiadau risg a rhoi mesurau rhesymol ar waith. |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| | ddigwyddiadau yr oeddent yn mynychu/bwriadu mynd iddynt ar fyr rybudd. | | |
| Anabledd | *Cadarnhaol:* Drwy sicrhau bod gweithgareddau a digwyddiadau'n dal i allu cael eu cynnal (er bod hynny ar lefel is): Bydd pobl anabl yn debygol o elwa, yn enwedig y rheini sy'n cael eu hynysu oddi wrth eu teulu a ffrindiau; a phobl agored i niwed, gan gynnwys plant, gan liniaru effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd neu allgáu digidol.<br><br>Negyddol*:* efallai y bydd rhai pobl anabl yn poeni am fwy o risgiau wrth i bobl barhau i gwrdd dan do mewn | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol. | Mae sicrhau bod digwyddiadau a gweithgareddau'n dal i allu cael eu cynnal yn ceisio lleihau'r posibilrwydd y bydd pobl yn cael eu hynysu'n llwyr.<br><br>Mae canllawiau ar gael ynghylch:<br><br>• y risgiau uwch sy'n gysylltiedig â phobl yn cwrdd dan do a sut orau i ddiogelu yn erbyn trosglwyddo'r feirws (gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb, hylendid dwylo da ac awyru da);<br><br>• y risgiau ychwanegol i'r rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol;<br><br>• sut gall busnesau a threfnwyr gweithgareddau/digwyddiadau alluogi gweithgareddau arfaethedig i gael eu cynnal yn ddiogel, gan gynnwys cynnal asesiadau risg a rhoi mesurau rhesymol ar waith. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio yn ystod ton bresennol yr amrywiolyn Omicron.<br><br>Hefyd, gallai fod effeithiau ychwanegol ar iechyd meddwl a lles pobl anabl, yn enwedig os oes rhaid canslo neu newid rhai gweithgareddau neu ddigwyddiadau yr oeddent yn mynychu/bwriadu mynd iddynt ar fyr rybudd. | | |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl Drawsrywedd ol) | Cadarnhaol: Drwy sicrhau bod gweithgareddau a digwyddiadau'n dal i allu cael eu cynnal (er bod hynny ar lefel is):<br>Bydd pobl sy'n trawsnewid a phobl drawsryweddol yn elwa, yn enwedig y rheini sy'n cael | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol | Mae sicrhau bod grwpiau cymorth, ond gyda llai o bobl, yn dal i allu cael eu cynnal yn ceisio lleihau'r posibilrwydd y bydd pobl yn cael eu hynysu'n llwyr neu'n cael eu gadael heb fodd cael gafael ar grwpiau/rhwydweithiau cymorth hanfodol.<br><br>Mae canllawiau ar gael ynghylch:<br><br>• y risgiau uwch sy'n gysylltiedig â phobl yn cwrdd dan do a sut orau i ddiogelu yn erbyn |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi’n lliniaru’r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| | eu hynysu oddi wrth eu teulu a ffrindiau; a phobl agored i niwed, gan gynnwys plant, gan liniaru effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd neu allgáu digidol.<br><br>Negyddol: gall pobl sy'n trawsnewid a phobl drawsryweddol fod mewn mwy o berygl o effeithiau niweidiol ar eu hiechyd meddwl, yn enwedig os ydynt yn poeni nad oes modd cael gafael ar eu grwpiau neu rwydweithiau cymorth. | | trosglwyddo’r feirws (gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb, hylendid dwylo da ac awyru da).<br><br>• y risgiau ychwanegol i’r rhai sy’n eithriadol o agored i niwed yn glinigol.<br><br>• sut gall busnesau a threfnwyr gweithgareddau/digwyddiadau alluogi gweithgareddau arfaethedig i gael eu cynnal yn ddiogel, gan gynnwys cynnal asesiadau risg a rhoi mesurau rhesymol ar waith. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Cadarnhaol: Drwy sicrhau bod gweithgareddau a digwyddiadau’n dal i allu cael eu cynnal (er bod hynny ar lefel is): | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol | Mae sicrhau bod grwpiau cymorth, ond gyda llai o bobl, yn dal i allu cael eu cynnal yn ceisio lleihau’r posibilrwydd y bydd pobl yn cael eu hynysu’n llwyr neu'n cael eu gadael heb fodd cael gafael ar grwpiau/rhwydweithiau cymorth hanfodol. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | Mae menywod beichiog a'r rheini sydd ar absenoldeb mamolaeth yn dal i allu mynd i weithgareddau a digwyddiadau (gan gynnwys grwpiau cymorth, dosbarthiadau cyn-geni, grwpiau rhieni a phlant bach) gan liniaru effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd neu allgáu digidol.<br><br>Negyddol: Gallai fod effeithiau ar iechyd meddwl a lles menywod beichiog neu'r rheini sydd ar absenoldeb mamolaeth, yn enwedig os oes rhaid canslo neu newid rhai gweithgareddau neu ddigwyddiadau yr oeddent yn mynychu/bwriadu mynd iddynt ar fyr rybudd. | | Mae canllawiau ar gael ynghylch:<br><br>• y risgiau uwch sy'n gysylltiedig â phobl yn cwrdd dan do a sut orau i ddiogelu yn erbyn trosglwyddo'r feirws (gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb, hylendid dwylo da ac awyru da).<br><br>• y risgiau ychwanegol i'r rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol.<br><br>• sut gall busnesau a threfnwyr gweithgareddau/digwyddiadau alluogi gweithgareddau arfaethedig i gael eu cynnal yn ddiogel, gan gynnwys cynnal asesiadau risg a rhoi mesurau rhesymol ar waith. |

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Cadarnhaol: Drwy sicrhau bod gweithgareddau a digwyddiadau'n dal i allu cael eu cynnal (er bod hynny ar lefel is), mae unigolion yn dal i allu mynd i weithgareddau a digwyddiadau (gan gynnwys grwpiau cymorth) gan liniaru effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd neu allgáu digidol.<br><br>Negyddol: Mae'n hysbys bod unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu mwy o risg yn sgil effeithiau'r coronafeirws ac fe allent fod yn fwy pryderus ynghylch mynd i ddigwyddiadau | first-ministers-bame-covid-19-advisory-group-report-of-the-socioeconomic-subgroup.pdf (gov.wales) | Mae sicrhau bod grwpiau cymorth, ond gyda llai o bobl, yn dal i allu cael eu cynnal yn ceisio lleihau'r posibilrwydd y bydd pobl yn cael eu hynysu'n llwyr neu'n cael eu gadael heb fodd cael gafael ar grwpiau/rhwydweithiau cymorth hanfodol.<br><br>Mae canllawiau ar gael ynghylch:<br><br>• y risgiau uwch sy'n gysylltiedig â phobl yn cwrdd dan do a sut orau i ddiogelu yn erbyn trosglwyddo'r feirws (gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb, hylendid dwylo da ac awyru da).<br><br>• y risgiau ychwanegol i'r rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol.<br><br>sut gall busnesau a threfnwyr gweithgareddau/digwyddiadau alluogi gweithgareddau arfaethedig i gael eu cynnal yn ddiogel, gan gynnwys cynnal asesiadau risg a rhoi mesurau rhesymol ar waith. |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| | dan do ac yn yr awyr agored yn ystod ton bresennol yr amrywiolyn Omicron. | | |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |
| Rhyw / Rhywedd | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Nid yw'r cap ar niferoedd (30 dan do a 50 yn yr awyr agored) yn berthnasol i seremonïau priodas, partneriaeth sifil na phriodas amgen. Nid ydynt ychwaith yn berthnasol i dderbyniadau a gwleddoedd claddu (er bod rheolau lletygarwch yn berthnasol). | Amh |

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cadarnhaol: Mae digwyddiadau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc o dan 18 oed wedi'u heithrio o'r cyfyngiadau presennol. | Amh | Amh |
| Aelwydydd incwm isel | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | | Amh |

*Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r ymateb i'r pandemig yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Mae'r cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull yn gwrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- Erthygl 15 – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, cyn belled â bod hynny ddim yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

- Erthygl 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Nid yw plant dan 11 oed yn cael eu cynnwys yn y cyfyngiadau ar gwrdd dan do ac yn yr awyr agored.

*Y Gymraeg*

Ni chanfuwyd bod y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg. Yn gyffredinol, gallai'r gallu i gwrdd â phobl o hyd at chwe aelwyd dan do gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gwrdd â siaradwyr Cymraeg eraill ledled Cymru a thu hwnt. Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

## ii. Rheol 6 a mesurau ychwanegol ar gyfer mangreoedd trwyddedig

Bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu harwain gan gyngor gwyddonol, ac os tybir bod angen byddant yn ailgyflwyno cyfyngiadau ar gymysgu cymdeithasol mewn lleoliadau wedi'u rheoleiddio o 6am ar 26 Rhagfyr 2021. Bydd hyn yn cynnwys y rheol chwech sy'n berthnasol i ymgynnull mewn safleoedd a reoleiddir fel sinemâu, theatrau a safleoedd lletygarwch. Mae'n ofynnol hefyd i bob mangre drwyddedig gymryd camau ychwanegol i ddiogelu cwsmeriaid a staff, gan gynnwys gwasanaeth gweini wrth y bwrdd a chasglu manylion cyswllt.

Os byddant yn cael eu rhoi ar waith, bydd y cyfyngiadau hyn yn cael eu hadolygu a byddant yn cael eu llacio cyn gynted ag y bydd y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn caniatáu hynny.

<u>EFFEITHIAU AR LESIANT</u>

Mae effeithiau negyddol yn gysylltiedig â chyfyngu ar allu pobl i gymdeithasu. Drwy gydol y pandemig mae pobl wedi dweud eu bod yn teimlo'n fwy ynysig ac unig o ganlyniad i'r cyfyngiadau. Bydd caniatáu i bobl barhau i gwrdd yn gymdeithasol mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio a mynd i leoliadau adloniant, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau, yn helpu i liniaru teimladau cynyddol o unigrwydd a theimlo'n ynysig.

<u>EFFEITHIAU ECONOMAIDD</u>

Ar gyfer y busnesau sy'n gallu gweithredu, mae'r newidiadau'n caniatáu i bobl barhau i gwrdd yn gymdeithasol a mynd i leoliadau adloniant, yn unol â'r cyfyngiadau. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y cyfyngiadau'n cael effaith negyddol ar lawer o fusnesau, er enghraifft, o ganlyniad i lai o gapasiti a chanslo archebion ar gyfer grwpiau sy'n cynnwys mwy na 6 o bobl. I gydnabod effaith economaidd y cyfyngiadau hyn ar fusnesau, bydd cymorth ariannol yn parhau i fod ar gael i fusnesau.

Mae arwyddion eisoes o newid ymddygiad cefndirol mewn ymateb i ymddangosiad Omicron, sy'n cael effaith negyddol ar lawer o fusnesau. Mae Wave 45 (ar gyfer y cyfnod rhwng 29 Tachwedd a 12 Rhagfyr 2021[8]) o Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Ganfyddiadau ac Amodau Busnes (BICS) yn dangos bod 24.0% o fusnesau yng Nghymru wedi dweud bod trosiant wedi gostwng hyd at 50% o'i gymharu â disgwyliadau arferol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn. Dyma'r uchaf o blith unrhyw un o wledydd y Deyrnas Unedig neu ranbarth yn Lloegr. Mae hyn yn

[8] Nid yw BICS yn cynnal set gyson o gwestiynau ar gyfer yr arolwg bob pythefnos.

awgrymu y byddai gweithgarwch economaidd yn y sectorau hyn yn debygol o ostwng i ryw raddau, hyd yn oed heb gyfyngiadau cyfreithiol. Felly, mae'n anodd amcangyfrif effaith y cyfyngiadau hyn yn gywir.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Gallai'r gostyngiad posibl yn nifer y bobl sy'n symud effeithio ar ansawdd yr aer wrth i bobl o bosibl ddewis teithio llai a theithio pellteroedd byr yng Nghymru ac i Gymru. Ar y llaw arall, gall y sefyllfa bresennol o ran iechyd a chapasiti cyfyngedig trafnidiaeth gyhoeddus olygu bod mwy yn defnyddio cerbydau preifat a bydd llai yn rhannu ceir, a gall hynny gael effaith negyddol ar ansawdd yr aer. Mae teithio llesol yn cael ei hyrwyddo'n eang, ond nid yw hyn yn debygol o fod yn ymarferol ar gyfer pellteroedd hirach.

Mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer yn ystod y pandemig. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

ASESIADAU O'R EFFAITH

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn caniatáu i hyd at chwech o bobl o hyd at chwe aelwyd barhau i gwrdd am unrhyw reswm dan do mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| Oed (meddwl am wahanol grwpiau oedran) | Cadarnhaol: bydd sicrhau bod pobl yn gallu parhau i gymysgu'n gymdeithasol a mynd i leoliadau adloniant o fudd i bobl o bob oed, yn enwedig y rheini sy'n cael eu hynysu oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau, gan liniaru effeithiau | Mae amrywiaeth o ddata arolwg yn awgrymu mai pobl iau (18-29 oed) yw'r mwyaf tebygol o boeni am eu hiechyd meddwl, a'u bod yn fwy tebygol o deimlo'n ynysig na grwpiau eraill.<br><br>Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o fod yn poeni am eu | Mae canllawiau ar gael ynghylch:<br><br>• risgiau uwch sy'n gysylltiedig â phobl yn cwrdd dan do a sut orau i ddiogelu yn erbyn trosglwyddo'r feirws (gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb, hylendid dwylo da ac awyru da). Argymhellir hefyd gwneud Prawf Llif Unffordd (LFT) cyn cymysgu'n gymdeithasol gyda phobl nad ydynt yn byw gyda nhw; |

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | unigrwydd ac arwahanrwydd neu allgáu digidol.<br><br>Negyddol: Efallai y bydd pobl o bob oed, ond yn enwedig pobl hŷn, yn poeni am fwy o risgiau wrth i bobl gwrdd dan do mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio yn ystod ton bresennol yr amrywiolyn Omicron a'r risg bosibl petai rhywun â'r feirws yn ymweld â nhw gartref. | hiechyd a'r risg o ddal COVID-19. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r grŵp oedran hwn wedi cael y ddau ddos o'r brechlyn yn ogystal â'r dos atgyfnerthu, felly gallai hynny leddfu rhai o'r pryderon. | y risgiau ychwanegol i'r rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol;<br><br>• sut gall busnesau a threfnwyr gweithgareddau/digwyddiadau alluogi gweithgareddau arfaethedig i gael eu cynnal yn ddiogel, gan gynnwys cynnal asesiadau risg a rhoi mesurau rhesymol ar waith. |
| Anabledd (meddwl am wahanol fathau o anabledd) | Cadarnhaol: bydd sicrhau bod pobl (gan gynnwys pobl anabl) yn gallu parhau i gymysgu'n gymdeithasol a mynd i leoliadau adloniant o fudd i bobl o bob oed, yn enwedig y rheini sy'n cael eu hynysu oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau, | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol | Mae canllawiau ar gael ynghylch:<br><br>• Risgiau uwch sy'n gysylltiedig â phobl yn cwrdd dan do a sut orau i ddiogelu yn erbyn trosglwyddo'r feirws (gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb, hylendid dwylo da ac awyru da). Argymhellir hefyd gwneud Prawf Llif Unffordd (LFT) cyn cymysgu'n gymdeithasol gyda phobl nad ydynt yn byw gyda nhw; |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| | gan liniaru effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd neu allgáu digidol.<br><br>Negyddol: efallai y bydd pobl anabl yn poeni am fwy o risgiau wrth i bobl gwrdd dan do mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio yn ystod ton bresennol yr amrywiolyn Omicron a'r risg bosibl petai rhywun â'r feirws yn ymweld â nhw gartref. | | • y risgiau ychwanegol i'r rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol;<br><br>sut gall busnesau a threfnwyr gweithgareddau/digwyddiadau alluogi gweithgareddau arfaethedig i gael eu cynnal yn ddiogel, gan gynnwys cynnal asesiadau risg a rhoi mesurau rhesymol ar waith. |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl Drawsryweddol) | Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol | Amh |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol | Amh |
| Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr | Cadarnhaol: Dim effeithiau gwahaniaethol penodol ar aelwydydd | first-ministers-bame-covid-19-advisory-group-report-of-the-socioeconomic-subgroup.pdf (gov.wales) | Gweithgareddau cyfathrebu cyffredinol ar y risgiau i grwpiau gwahanol a'r angen parhaus i bawb barhau i ddilyn canllawiau fel cadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchudd wyneb pan nad |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| Lloches a Ffoaduriaid) | Negyddol: Mae'n hysbys bod unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu mwy o risg yn sgil effeithiau'r coronafeirws ac fe allent fod yn fwy pryderus ynghylch cwrdd dan do mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio yn ystod ton bresennol yr amrywiolyn Omicron | | ydynt yn eistedd, a sicrhau hylendid dwylo da. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol | Amh | Amh |
| Rhyw / Rhywedd | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol | Amh | Amh |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol | Amh | Amh |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |
| Aelwydydd incwm isel | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |

*Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r ymateb i'r pandemig yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| *Hawliau Dynol* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol?* |
|---|---|---|---|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (e.e. yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | Cadarnhaol: nid yw'r rheol chwech yn berthnasol i bobl o'r un aelwyd, felly gall y rhif hwn fod yn fwy na chwech o bobl.<br><br>Mae'r cyfyngiadau ar nifer y bobl sy'n gallu ymgynnull mewn safleoedd sy'n cael eu rheoleiddio yn gymesur ar sail iechyd y cyhoedd. | Amh | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

| ***Hawliau Dynol*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol?*** |
|---|---|---|---|
| Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu | Cadarnhaol: nid yw'r rheol chwech yn berthnasol i bobl o'r un aelwyd, felly gall y rhif hwn fod yn fwy na chwech o bobl.<br><br>Mae'r cyfyngiadau ar nifer y bobl sy'n gallu ymgynnull mewn safleoedd sy'n cael eu rheoleiddio yn gymesur ar sail iechyd y cyhoedd. | Amh | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Mae'r cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull yn gwrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- Erthygl 15 – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, cyn belled â bod hynny ddim yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

- Erthygl 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Nid yw plant dan 11 oed yn cael eu cynnwys yn y cyfyngiadau ar gwrdd dan do.

*Y Gymraeg*

Ni chanfuwyd bod y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg. Yn gyffredinol, gallai'r gallu i gwrdd â phobl o hyd at chwe aelwyd dan do gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gwrdd â siaradwyr Cymraeg eraill ledled Cymru a thu hwnt. Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg. **Gweithio gartref lle bo hynny'n rhesymol ymarferol**

Bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu harwain gan gyngor gwyddonol, ac os tybir bod angen byddant yn ailgyflwyno cyfyngiadau i'w gwneud yn ofyniad cyfreithiol i weithio gartref os yw'n rhesymol ymarferol o 6am ar 26 Rhagfyr 2021.

Os byddant yn cael eu rhoi ar waith, bydd y cyfyngiadau hyn yn cael eu hadolygu a byddant yn cael eu llacio cyn gynted ag y bydd y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn caniatáu hynny.

Cafodd effaith gweithio gartref lle bo'n bosibl ei hystyried eisoes yn yr Asesiad Effaith Cryno canlynol: alert-levels-in-wales-a-guide-to-restrictions-summary-impact-assessment-august-2021.pdf (gov.wales).

## EFFEITHIAU AR LESIANT

Gall lleihau dewis staff o ran ble maen nhw'n gweithio gael effaith negyddol ar iechyd a lles y rheini sy'n ffafrio gweithio mewn swyddfa. Efallai na fydd gan rai aelodau o staff amgylchedd cartref sy'n addas ar gyfer gweithio neu efallai y byddant yn methu'r agwedd gymdeithasol sy'n gysylltiedig â gweithio mewn swyddfa, neu'r cyfleoedd posibl i wella gyrfa wrth weithio gyda chydweithwyr os bydd llai o staff yn gallu gweithio yn y swyddfa. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai aelodau o staff yn teimlo mwy o bryder mewn amgylchedd swyddfa, yn enwedig os ydynt yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac mae'r defnydd o orchuddion wyneb yn lleihau.

Un agwedd negyddol bosibl arall sy'n gysylltiedig â gweithio gartref yw'r diffyg gwahanu rhwng bywyd gwaith a bywyd y cartref. Gall gweithio mewn swyddfa leihau'r 'aneglurder' i staff rhwng bywyd gwaith a bywyd y cartref, ac fe allai hynny leihau'r potensial i staff weithio oriau hirach o amgylchedd y cartref.

Os caiff ei roi ar waith, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau rhaid i bawb weithio gartref os yw'n rhesymol ymarferol iddyn nhw wneud hynny. Yn unol â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol, rhaid i gyflogwyr alluogi, caniatáu neu fynnu bod eu cyflogeion yn gweithio gartref oni bai fod angen busnes neu iechyd meddwl a lles clir a fyddai'n golygu ei bod hi'n anymarferol gweithio gartref.

Bydd ein **canllawiau i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau** yn cael eu diweddaru i nodi na ddylid gofyn na rhoi pwysau ar gyflogeion i ddychwelyd i weithle os nad oes achos busnes clir dros wneud hynny. Os yw cyflogwyr yn ystyried dweud wrth eu staff am ddychwelyd i'r gweithle, dylent yn y lle cyntaf asesu a fyddai trefniadau amgen yn gallu bodloni'r rhan fwyaf o anghenion y cyflogwr. Dylid trafod hyn gyda'r staff a/neu gynrychiolwyr ar ran y staff. Dylai cyflogwyr gofnodi'r trafodaethau a'r penderfyniadau yn yr Asesiad Risg Covid a'i rannu â staff a/neu gynrychiolwyr y staff.

Rhaid i gyflogwyr sicrhau bod staff yn gallu gweithio gartref yn rhesymol ymarferol. Gallai hyn gynnwys rhoi gliniaduron neu ffonau symudol neu offer arbenigol i staff, a hwyluso cyfathrebiadau gyda phawb.

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Gallai llai o weithio mewn swyddfa leihau costau i sefydliadau drwy leihau'r ddibyniaeth ar stadau ffisegol, ac i staff yn sgil llai o deithio i'r gwaith. Fodd bynnag, efallai y bydd staff yn gweld cynnydd mewn biliau ynni oherwydd eu bod yn gweithio gartref.

Mae'n debygol y bydd effeithiau economaidd eilaidd o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n dychwelyd i weithio mewn swyddfeydd. Efallai y bydd nifer o fusnesau, yn enwedig yn y sector lletygarwch a manwerthu mewn ardaloedd trefol mawr, yn gweld effaith negyddol o ganlyniad i lai o ymwelwyr. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd rhai busnesau mewn trefi llai yn gweld effaith gadarnhaol os bydd pobl a arferai weithio i ffwrdd o'u cymunedau lleol mewn canolfannau trefol mwy yn gwario mwy o arian yn nes at eu cartrefi.

ASESIADAU O'R EFFAITH

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod.

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| Oed (meddwl am wahanol grwpiau oedran) | Efallai y bydd effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles cyflogeion o bob oed os nad ydynt yn gallu gweithio mewn amgylchedd cartref addas.<br><br>Gallai gweithwyr hŷn elwa ar weithio gartref yn amlach gan eu bod yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu e.e. ar gyfer plant a/neu rieni sy'n heneiddio. Gallai'r ffordd hon o weithio helpu'r cyflogeion hyn i sicrhau | Byd pandemig COVID-19 a thu hwnt: Effaith Gweithio Gartref ac Ystwyth ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru – Adroddiad Cryno (https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/) | Rhaid i bobl weithio gartref os yw'n rhesymol ymarferol iddyn nhw wneud hynny. Yn unol â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol, rhaid i gyflogwyr alluogi, caniatáu neu fynnu bod eu cyflogeion yn gweithio gartref oni bai fod angen busnes neu iechyd meddwl a lles clir a fyddai'n golygu ei bod hi'n anymarferol gweithio gartref. Dylai unrhyw benderfyniadau ynghylch |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi’n lliniaru’r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | cydbwysedd rhwng ymrwymiadau gofalu â’u swydd.<br><br>Efallai nad oes gan aelodau staff iau amgylchedd cartref sy’n addas ar gyfer gweithio neu efallai eu bod yn fwy tebygol o fethu’r agwedd gymdeithasol sy'n gysylltiedig â gweithio mewn swyddfa.<br><br>Gall gweithio gartref gydag offer anghywir arwain at gynnydd mewn anafiadau cyhyrysgerbydol; er bod hyn yn gallu effeithio ar bob unigolyn mae ei effaith yn debygol o fod yn fwy mewn rhai grwpiau oedran. | | gweithio gartref neu benderfyniadau sy'n ymwneud â mynnu bod cyflogeion yn dychwelyd i’r gweithle gael eu nodi’n glir yn yr asesiad risg sy’n ymwneud yn benodol â’r coronafeirws, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru a roddwyd ar waith gan y cyflogwr. Dylai’r mesurau lliniaru hyn gynnwys yr holl offer sydd ar gael i staff weithio’n effeithiol gartref a/neu amlinelliad o’r mesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith i leihau’r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â’r feirws a lledaenu’r feirws yn amgylchedd y gweithle.<br><br>Bydd y cyflogeion sy’n methu gweithio gartref am |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | | | resymau sy'n cynnwys effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles yn gallu gweithio yn y swyddfa heb y risg o gael dirwy.<br><br>Bydd y canllawiau'n cael eu diweddaru fel bod modd i'r cyhoedd a chyflogwyr ystyried y mesurau lliniaru uchod. |
| Anabledd (ystyriwch fodel cymdeithasol o anabledd a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi, neu y gellid ei ddefnyddio i ddileu, y rhwystrau sy'n gwneud pobl â gwahanol fathau o namau yn anabl) | Cadarnhaol: Gall peidio â dychwelyd i swyddfeydd gael effaith gadarnhaol ar rai staff anabl a allai deimlo dan bwysau i ddod i mewn i'r swyddfa ar gyfer cyfarfodydd tîm 'gan fod pawb arall am fod yno' er bod gweithio gartref yn fwy | (https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/) | Rhaid i bobl weithio gartref os yw'n rhesymol ymarferol iddyn nhw wneud hynny. Yn unol â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol, rhaid i gyflogwyr alluogi, caniatáu neu fynnu bod eu cyflogeion yn gweithio gartref |

| *Nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| | cyfforddus a chyfleus.<br><br>Yn sgil y gofyniad i weithio gartref mae'n bosibl y bydd cyfleoedd gwaith ar gael i unigolion sydd â nam neu gyflwr iechyd sy'n eu rhwystro rhag gweithio mewn swyddfa'n llawn amser a/neu deithio i'r gwaith (e.e. am fod hynny'n achosi blinder a/neu anesmwythyd), felly bydd hynny'n cynyddu amrywiaeth y gweithlu.<br><br>Gall sicrhau tegwch i'r holl staff lle mai gweithio a chwrdd o bell ac o gartref/lleoliadau eraill yw'r norm yn hytrach na'r eithriad gynyddu cynhwysiant i staff anabl sydd ddim yn gallu gweithio mewn swyddfa. | | oni bai fod angen busnes neu iechyd meddwl a lles clir a fyddai'n golygu ei bod hi'n anymarferol gweithio gartref. Dylai unrhyw benderfyniadau ynghylch gweithio gartref neu benderfyniadau sy'n ymwneud â mynnu bod cyflogeion yn dychwelyd i'r gweithle gael eu nodi'n glir yn yr asesiad risg sy'n ymwneud yn benodol â'r coronafeirws, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru a roddwyd ar waith gan y cyflogwr. Dylai'r mesurau lliniaru hyn gynnwys yr holl offer sydd ar gael i staff weithio'n effeithiol gartref; a/neu amlinelliad o'r mesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | Efallai y bydd staff anabl yn croesawu'r cyfle i gael gweithio gartref fel ffordd o osgoi dod i gysylltiad ag ymddygiad annerbyniol yn y gweithle. Os felly, byddem yn dymuno gweld staff yn lleisio pryderon gyda'r Adran Adnoddau Dynol er mwyn mynd i'r afael â'r math yma o ymddygiad. Ni ddylai staff sy'n dioddef ymddygiad annerbyniol yn y gweithle deimlo mai'r unig ateb sydd ar gael iddynt yw gweithio gartref.<br><br>Hyd yn oed lle nad yw unigolion yn dioddef ymddygiad annerbyniol penodol, efallai y bydd rhagfarn ddiarwybod pobl eraill yn effeithio arnynt. Gallai gweithio o bell olygu nad ydynt | | posibilrwydd o ddod i gysylltiad â'r feirws a lledaenu'r feirws yn amgylchedd y gweithle.<br><br>Bydd y cyflogeion sy'n methu gweithio gartref am resymau sy'n cynnwys effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles yn gallu gweithio yn y swyddfa heb y risg o gael dirwy.<br><br>Bydd y canllawiau'n cael eu diweddaru fel bod modd i'r cyhoedd a chyflogwyr ystyried y mesurau lliniaru uchod. |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | yn dioddef hyn mwyach.<br><br>Negyddol: Gallai'r gofyniad i bawb weithio gartref lle bo hynny'n rhesymol ymarferol gael effaith negyddol ar rai staff anabl lle nad yw gweithio gartref yn addas oherwydd y nam sydd ganddynt. Gall mwy o weithio gartref gydag offer anghywir arwain at gynnydd mewn anafiadau cyhyrysgerbydol; er bod hyn yn gallu effeithio ar bob unigolyn mae ei effaith yn debygol o fod yn fwy i bobl sydd â nam | | |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl Drawsryweddol) | Cadarnhaol: Gall gweithio gartref fod o fudd i unigolion sy'n mynd drwy broses ailbennu rhywedd – e.e. mwy o breifatrwydd a'r potensial i | Amh<br><br>([https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/](https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/)) | Rhaid i bobl weithio gartref os yw'n rhesymol ymarferol iddyn nhw wneud hynny. Yn unol â'u dyletswyddau i gymryd camau |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | leihau'r angen am absenoldeb salwch neu absenoldeb arbennig mewn rhai achosion neu i weithio o gwmpas apwyntiadau.<br><br>Negyddol: Gall gweithio gartref gael effaith negyddol ar rai staff trawsryweddol sydd heb 'ddod allan' gartref, felly gall dibynnu mwy ar weithio gartref achosi anawsterau personol. | | rhesymol, rhaid i gyflogwyr alluogi, caniatáu neu fynnu bod eu cyflogeion yn gweithio gartref oni bai fod angen busnes neu iechyd meddwl a lles clir a fyddai'n golygu ei bod hi'n anymarferol gweithio gartref. Dylai unrhyw benderfyniadau ynghylch gweithio gartref neu benderfyniadau sy'n ymwneud â mynnu bod cyflogeion yn dychwelyd i'r gweithle gael eu nodi'n glir yn yr asesiad risg sy'n ymwneud yn benodol â'r coronafeirws, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru a roddwyd ar waith gan y cyflogwr. Dylai'r mesurau lliniaru hyn gynnwys yr holl offer sydd ar gael i staff weithio'n effeithiol gartref. |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | | | Neu amlinellu'r mesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â'r feirws a lledaenu'r feirws yn amgylchedd y gweithle.<br><br>Bydd y cyflogeion sy'n methu gweithio gartref am resymau sy'n cynnwys effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles yn gallu gweithio yn y swyddfa heb y risg o gael dirwy.<br><br>Bydd y canllawiau'n cael eu diweddaru fel bod modd i'r cyhoedd a chyflogwyr ystyried y mesurau lliniaru uchod. |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Cadarnhaol: Gall gweithio gartref fod o fudd i unigolion sy'n feichiog e.e. drwy leihau'r angen am absenoldeb salwch neu drwy allu lleihau blinder ac anesmwythder sy'n codi yn sgil teithio i'r swyddfa. Mae cyflogeion sydd wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn geni plentyn yn debygol o elwa ar gael gweithio gartref am gyfnod ychwanegol gyda'r babi newydd.<br><br>Negyddol: Efallai y bydd cyflogeion sydd wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn geni plentyn wedi bod yn edrych ymlaen at gael dychwelyd i 'amgylchedd y swyddfa' ac efallai y byddant yn teimlo'n ynysig wedi | Ni ddefnyddiwyd unrhyw dystiolaeth benodol<br><br>([https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/](https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/)) | Rhaid i bobl weithio gartref os yw'n rhesymol ymarferol iddyn nhw wneud hynny. Yn unol â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol, rhaid i gyflogwyr alluogi, caniatáu neu fynnu bod eu cyflogeion yn gweithio gartref oni bai fod angen busnes neu iechyd meddwl a lles clir a fyddai'n golygu ei bod hi'n anymarferol gweithio gartref. Dylai unrhyw benderfyniadau ynghylch gweithio gartref neu benderfyniadau sy'n ymwneud â mynnu bod cyflogeion yn dychwelyd i'r gweithle gael eu nodi'n glir yn yr asesiad risg sy'n ymwneud yn benodol â'r coronafeirws, gan gynnwys unrhyw fesurau |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | cyfnod hir gartref ar ôl genedigaeth eu plentyn. | | lliniaru a roddwyd ar waith gan y cyflogwr. Dylai'r mesurau lliniaru hyn gynnwys darparu'r holl offer sydd ar gael i staff weithio'n effeithiol gartref. Neu amlinellu'r mesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â'r feirws a lledaenu'r feirws yn amgylchedd y gweithle.<br><br>Bydd y cyflogeion sy'n methu gweithio gartref am resymau sy'n cynnwys effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles yn gallu gweithio yn y swyddfa heb y risg o gael dirwy.<br><br>Bydd y canllawiau'n cael eu diweddaru fel |

| Nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi’n lliniaru’r effeithiau? |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | bod modd i’r cyhoedd a chyflogwyr ystyried y mesurau lliniaru uchod. |
| Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Cadarnhaol: Efallai y bydd staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn croesawu'r cyfle i gael gweithio gartref fel ffordd o osgoi dod i gysylltiad ag ymddygiad annerbyniol yn y gweithle. Os felly, byddem yn dymuno gweld staff lleiafrifoedd ethnig yn lleisio pryderon gyda’r Adran Adnoddau Dynol er mwyn mynd i’r afael â’r math yma o ymddygiad. Ni ddylai staff sy’n dioddef ymddygiad annerbyniol yn y gweithle deimlo mai’r unig ateb | Mae data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch COVID-19 a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn dangos bod rhai lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn.[9]<br><br>(https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/) | Rhaid i bobl weithio gartref os yw’n rhesymol ymarferol iddyn nhw wneud hynny. Yn unol â’u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol, rhaid i gyflogwyr alluogi, caniatáu neu fynnu bod eu cyflogeion yn gweithio gartref oni bai fod angen busnes neu iechyd meddwl a lles clir a fyddai’n golygu ei bod hi’n anymarferol gweithio gartref. Dylai unrhyw benderfyniadau ynghylch gweithio gartref neu |

[9] Llywodraeth Cymru, Coronafeirws (COVID-19) a’r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, Mehefin 2020

| Nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi’n lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | sydd ar gael iddynt yw gweithio gartref.<br><br>Negyddol: Efallai na fydd rhai aelodau o staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn byw mewn tai sy’n addas i weithio gartref, ac felly bydd peidio â mynd i’r swyddfa yn cael effaith negyddol arnynt. Gallai fod yn fanteisiol caniatáu i fwy o staff ddod i mewn i’r swyddfa. | | benderfyniadau sy'n ymwneud â mynnu bod cyflogeion yn dychwelyd i’r gweithle gael eu nodi’n glir yn yr asesiad risg sy’n ymwneud yn benodol â’r coronafeirws, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru a roddwyd ar waith gan y cyflogwr. Dylai’r mesurau lliniaru hyn gynnwys darparu’r holl offer sydd ar gael i staff weithio’n effeithiol gartref. Neu amlinellu’r mesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith i leihau’r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â’r feirws a lledaenu’r feirws yn amgylchedd y gweithle.<br><br>Bydd y cyflogeion sy’n methu gweithio gartref am resymau sy’n cynnwys |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | | | effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles yn gallu gweithio yn y swyddfa heb y risg o gael dirwy.<br><br>Bydd y canllawiau'n cael eu diweddaru fel bod modd i'r cyhoedd a chyflogwyr ystyried y mesurau lliniaru uchod. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Cadarnhaol: Gall gweithio gartref gael effaith gadarnhaol ar gyflogeion sydd â ffydd am fod modd iddyn nhw gadw arferion crefyddol yn ystod eu diwrnod gwaith. | ([https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/](https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/)) | |
| Rhyw / Rhywedd | Mae menywod yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser oherwydd ymrwymiadau gofalu. | ([https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/](https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/)) | Rhaid i bobl weithio gartref os yw'n rhesymol ymarferol iddyn nhw wneud hynny. Yn unol |

| Nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol: gallai effeithiau gweithio gartref gynnwys lleihau amseroedd teithio i'r gwaith, a gallai'r gallu i 'weithio o amgylch' cyfrifoldebau gofalu yn haws olygu bod modd i weithwyr rhan-amser (menywod yn bennaf) gynyddu eu horiau gwaith neu sicrhau gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a bydd hynny'n cael effaith gadarnhaol ar sicrwydd ariannol nawr ac yn y dyfodol ac yn cael effaith gadarnhaol o bosibl o ran datblygu gyrfa. Gall gweithio gartref hefyd olygu bod modd i bartneriaid gwrywaidd chwarae rhan fwy gweithredol mewn cyfrifoldebau gofal plant. | | â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol, rhaid i gyflogwyr alluogi, caniatáu neu fynnu bod eu cyflogeion yn gweithio gartref oni bai fod angen busnes neu iechyd meddwl a lles clir a fyddai'n golygu ei bod hi'n anymarferol gweithio gartref. Dylai unrhyw benderfyniadau ynghylch gweithio gartref neu benderfyniadau sy'n ymwneud â mynnu bod cyflogeion yn dychwelyd i'r gweithle gael eu nodi'n glir yn yr asesiad risg sy'n ymwneud yn benodol â'r coronafeirws, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru a roddwyd ar waith gan y cyflogwr. Dylai'r mesurau lliniaru hyn gynnwys yr holl offer sydd |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | Negyddol: efallai na fydd gweithio gartref yn addas i staff sy'n cael eu cam-drin yn y cartref (boed yn wryw neu'n fenyw) a gallent fod mewn mwy o berygl, yn enwedig os yw'r sawl sy'n cam-drin hefyd yn gweithio gartref. Bydd y cyfleoedd i estyn allan am gymorth yn dod yn gyfyngedig, a bydd hynny'n ychwanegu at y pryder a'r bygythiad o gam-drin meddyliol neu gorfforol.<br><br>Mae'n bosibl y bydd y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd yn teimlo effeithiau negyddol wrth weithio gartref oherwydd efallai y byddan nhw'n teimlo ei bod hi'n fwy anodd sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac yn | | ar gael i staff weithio'n effeithiol gartref a/neu amlinelliad o'r mesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â'r feirws a lledaenu'r feirws yn amgylchedd y gweithle.<br><br>Bydd y cyflogeion sy'n methu gweithio gartref am resymau sy'n cynnwys effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles yn gallu gweithio yn y swyddfa heb y risg o gael dirwy.<br><br>Bydd y canllawiau'n cael eu diweddaru fel bod modd i'r cyhoedd a chyflogwyr ystyried y mesurau lliniaru uchod. |

| Nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | teimlo bod angen iddyn nhw ddarparu mwy o ofal gan eu bod gartref. | | I liniaru hyn rydym wedi dyrannu rhagor o refeniw gwerth £1.050m yn 2022-23 a chyfalaf o £2.1m ym mhob un o'r tair blynedd er mwyn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Negyddol: Gallai gweithio gartref gael effaith negyddol ar unigolion lesbiaidd, hoyw a deurywiol os nad ydynt yn teimlo'n ddiogel gartref. Gall gweithio gartref gael effaith negyddol ar rai unigolion lesbiaidd, hoyw a deurywiol sydd heb 'ddod allan' gartref, felly gall dibynnu mwy ar weithio gartref achosi anawsterau personol.<br><br>Efallai y bydd unigolion | | Rhaid i bobl weithio gartref os yw'n rhesymol ymarferol iddyn nhw wneud hynny. Yn unol â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol, rhaid i gyflogwyr alluogi, caniatáu neu fynnu bod eu cyflogeion yn gweithio gartref oni bai fod angen busnes neu iechyd meddwl a lles clir a fyddai'n golygu ei bod hi'n anymarferol gweithio gartref. Dylai unrhyw |

| Nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi’n lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn croesawu'r cyfle i gael gweithio gartref fel ffordd o osgoi dod i gysylltiad ag ymddygiad annerbyniol yn y gweithle. Os felly, byddem yn dymuno gweld staff lleiafrifoedd ethnig yn lleisio pryderon gyda’r Adran Adnoddau Dynol er mwyn mynd i’r afael â’r math yma o ymddygiad. Ni ddylai staff sy’n dioddef ymddygiad annerbyniol yn y gweithle deimlo mai’r unig ateb sydd ar gael iddynt yw gweithio gartref. | | benderfyniadau ynghylch gweithio gartref neu benderfyniadau sy'n ymwneud â mynnu bod cyflogeion yn dychwelyd i’r gweithle gael eu nodi’n glir yn yr asesiad risg sy’n ymwneud yn benodol â’r coronafeirws, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru a roddwyd ar waith gan y cyflogwr. Dylai’r mesurau lliniaru hyn gynnwys yr holl offer sydd ar gael i staff weithio’n effeithiol gartref. Neu amlinellu’r mesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith i leihau’r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â’r feirws a lledaenu’r feirws yn amgylchedd y gweithle.<br><br>Bydd y cyflogeion sy’n methu gweithio |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | | | gartref am resymau sy'n cynnwys effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles yn gallu gweithio yn y swyddfa heb y risg o gael dirwy.<br><br>Bydd y canllawiau'n cael eu diweddaru fel bod modd i'r cyhoedd a chyflogwyr ystyried y mesurau lliniaru uchod. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim effeithiau gwahaniaethol penodol | Amh | Amh |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cadarnhaol- Efallai y bydd plant yn elwa ar bresenoldeb y rheini sy'n gweithio gartref. Er enghraifft, efallai y bydd mwy o gyfle iddynt ryngweithio â rhiant neu ofalwr am nad oes angen iddyn nhw deithio i'r gwaith mwyach. | dim wedi'u nodi | Amh |

| *Nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| | Negyddol –Bydd presenoldeb y camdriniwr yn cael effaith negyddol ar blant sy'n cael eu cam-drin. | | |
| Aelwydydd incwm isel | Cadarnhaol: gallai aelwydydd incwm isel gael budd o'r gofyniad i weithio gartref oherwydd gallant arbed arian drwy osgoi costau tanwydd neu gludiant cyhoeddus ar gyfer eu taith i'r gweithle.<br><br>Negyddol: gall pryder a gorbryder gynyddu i'r rheini heb ddigon o le neu gysylltiad dibynadwy â'r rhyngrwyd i weithio gartref neu a all fod yn poeni am gostau gwresogi ac ynni uwch. Gallai hyn gael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. | Dim wedi'u nodi<br><br>(https://phw.nhs.wales/news/home-working-can-enhance-mental-well-being-but-also-increases-risk-of-stress/the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales-supporting-information-report/) | Yn unol â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol, rhaid i gyflogwyr alluogi, caniatáu neu fynnu bod eu cyflogeion yn gweithio gartref oni bai fod angen busnes neu iechyd meddwl a lles clir a fyddai'n golygu ei bod hi'n anymarferol gweithio gartref. Dylai unrhyw benderfyniadau ynghylch gweithio gartref neu benderfyniadau sy'n ymwneud â mynnu bod cyflogeion yn dychwelyd i'r gweithle gael eu nodi'n glir yn yr asesiad risg sy'n ymwneud yn benodol â'r |

| Nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | Hefyd, nid yw gweithio gartref yn 'dda' i bawb, ac mae'n llawer mwy heriol i'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r gwahaniaethau'n cynnwys: diffyg lle i weithio gartref naill ai oherwydd maint y cartref neu yn sgil gorfod rhannu ag eraill; cost a dibynadwyedd band eang; biliau golau a gwres ychwanegol, ac effaith negyddol ynysu ar iechyd meddwl a lles, yn enwedig dros gyfnod y gaeaf. Mae'n bosibl y gellir gwneud iawn am rai costau teithio i'r gwaith ond byddai hynny'n dibynnu ar amgylchiadau unigol. | | coronafeirws, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru a roddwyd ar waith gan y cyflogwr. Dylai'r mesurau lliniaru hyn gynnwys yr holl offer sydd ar gael i staff weithio'n effeithiol gartref. Neu amlinellu'r mesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â'r feirws a lledaenu'r feirws yn amgylchedd y gweithle.<br><br>Bydd y cyflogeion sy'n methu gweithio gartref am resymau sy'n cynnwys effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles yn gallu gweithio yn y swyddfa heb y risg o gael dirwy.<br><br>Bydd y canllawiau'n |

| ***Nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | | | cael eu diweddaru fel bod modd i'r cyhoedd a chyflogwyr ystyried y mesurau lliniaru uchod. |

## Cofnod o'r Effaith ar Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

| ***Hawliau Dynol*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol?*** |
|---|---|---|---|
| Amh | Dim Effaith | Amh | Amh |

## iii. Clybiau nos yn gorfod cau

| |
|---|
| Mae'n rhaid i Weinidogion ystyried yr isod wrth wneud penderfyniad terfynol. Mae'r asesiadau hyn yn ystyried i ba raddau y gallai cyfyngiad fod yn anghymesur oherwydd ei effaith ehangach ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac adlewyrchu dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. |

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae'r ystadegau canlynol yn rhoi darlun cyffredinol o'r sector clybiau nos[10] yng Nghymru. Roedd 485 o fentrau yn y sector clybiau nos yng Nghymru yn 2020, tua 0.5% o gyfanswm y mentrau. Mae hyn yn cymharu â 0.3% o'r holl fentrau ar lefel y DU ar gyfer y sector. Roedd y nifer uchaf o fentrau clybiau nos (255) yn Ne-ddwyrain Cymru, yna Canolbarth a De-orllewin Cymru (155) a Gogledd Cymru (75). Mae 74% o fentrau yn y sector clybiau nos yng Nghymru yn cael eu dosbarthu fel microfusnesau (sy'n cyflogi 0-9 o bobl) sy'n sylweddol is na'r ffigur ar gyfer pob sector (89%).

Roedd 6,000 o bobl mewn gwaith yn 2019 yn y sector clybiau nos yng Nghymru (0.5% o gyfanswm cyflogaeth Cymru). O'i gymharu â Phrydain Fawr yn gyffredinol (0.2%), roedd gan Gymru gyfran fwy o gyflogaeth yn y sector. Yng Nghymru, roedd y lefelau cyflogaeth uchaf yn Ne-ddwyrain Cymru, gyda 3,500 neu 0.5% o'r cyfanswm cyflogaeth. Roedd y sector yn cyflogi 1,750 o bobl yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru (0.5% o'r cyfanswm cyflogaeth) a 900 yng Ngogledd Cymru (0.3% o'r cyfanswm cyflogaeth).

Mae'n anodd amcangyfrif effaith cau clybiau nos yn gywir oherwydd efallai y byddant wedi cael llai o ymwelwyr o ganlyniad i newid ymddygiad cefndirol mewn ymateb i ymddangosiad Omicron. Mae Wave 45 (ar gyfer y cyfnod rhwng 29 Tachwedd a 12 Rhagfyr 2021[11]) o Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Ganfyddiadau ac Amodau Busnes (BICS) yn dangos bod 24.0% o fusnesau yng Nghymru wedi dweud bod trosiant wedi gostwng hyd at 50% o'i gymharu â disgwyliadau arferol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn. Dyma'r uchaf o blith unrhyw un o wledydd y Deyrnas Unedig neu ranbarth yn Lloegr. Mae hyn yn awgrymu y bydd effeithiau economaidd negyddol i ryw raddau, hyd yn oed heb gyfyngiadau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae'r naratif canlynol yn dangos pwysigrwydd y sector i'r economi.

Yn 2019, roedd 19% o deithiau hamdden domestig 3+ awr yn golygu mynd am noson allan i dŷ tafarn neu glwb, ac ar gyfer 10% o'r holl ymweliadau (15.2 miliwn o deithiau, gyda gwariant cysylltiedig o £449m) dyma oedd prif reswm y daith. Mae gwariant cysylltiedig yn cynnwys pob rhan o'r daith hamdden, ac nid oes data ar gael ar gyfer gwariant ar fwyta ac yfed yn benodol. Ar gyfer teithiau dros nos i Gymru,

[10] Wedi'u diffinio fel 56301: Clybiau trwyddedig

[11] Nid yw BICS yn cynnal set gyson o gwestiynau ar gyfer yr arolwg bob pythefnos.

roedd y gwariant uniongyrchol ar fwyta ac yfed allan yn ystod 2019 yn £428m, 28% o gyfanswm cost y daith, ar gyfartaledd.[12]

Efallai y bydd rhai clybiau nos yn dewis gweithredu mewn ffordd wahanol er mwyn aros yn agored, er enghraifft drwy gynnig gwasanaeth bwrdd. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn anodd i lawer o fusnesau ac maent yn debygol o weld gostyngiad sylweddol mewn refeniw. Ar lefel y DU, yn ystod y cyfnod clo ddechrau 2021, roedd y clybiau nos a oedd wedi ceisio masnachu drwy gynnig diodydd tecawê neu rith-gigs wedi sicrhau 5 y cant o'r refeniw arferol ar gyfartaledd, yn ôl y Gymdeithas Diwydiannau Nos (NTIA), y corff masnachu ar gyfer busnesau sy'n gweithredu rhwng 6pm a 6am. Bryd hynny, roedd hefyd wedi adrodd bod tua 40 o fusnesau nos yn cau am byth bob wythnos. Mae ffigurau gan y Local Data Company yn dangos mai Cymru, Swydd Efrog a Llundain welodd y nifer uchaf o glybiau nos yn cau - rhwng 10 a 13 y cant o'r cyfanswm[13].

Mae'n debygol hefyd y bydd effeithiau eilaidd ar sectorau eraill o ganlyniad i'r ffaith bod yn rhaid i glybiau nos gau. Yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd yr holl sector *Gwasanaethau Bwyd a Diod* wedi cyfrannu £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru yn 2018, a oedd gyfwerth â 2% o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Yn 2019, gan ddefnyddio data Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), amcangyfrifwyd bod 85,500 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y sector 'Lletygarwch - Tafarndai, Caffis a Bwytai' yng Nghymru, 6.7% o gyfanswm y gyflogaeth.[14]

Mae'r sector lletygarwch hefyd yn hanfodol i'r economi sylfaen. Mae cwmnïau lleol yn aml yn prynu bwyd a diod gan gyflenwyr lleol. Mae'n amlwg bod cau'r sector lletygarwch yn effeithio ar y sector cyflenwi bwyd a diod – er enghraifft, mae 50% o'r llaeth a gyflenwir gan ffermwyr yn mynd i'r sector lletygarwch yn gyffredinol. Er bod y defnydd domestig wedi codi 15%, nid yw hyn yn gwneud iawn am y gostyngiad o'r sector lletygarwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod camu i mewn i gefnogi ffermwyr o ganlyniad i hynny.

Y consensws ymysg economegwyr sydd wedi astudio llwybr yr argyfwng yw bod y Cynllun Cadw Swyddi/Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig wedi bod yn gwbl hanfodol o ran diogelu swyddi yn ystod y cyfnodau o gyfyngiadau. Felly, yn absenoldeb cymorth gan y llywodraeth, mae cyfyngiadau sy'n gorfodi busnesau i gau, naill ai drwy ofynion cyfreithiol neu hyfywedd, yn gallu arwain at effaith negyddol llawer mwy ar lefelau cyflogaeth nag yr ydym wedi'i weld yn ystod y pandemig hyd yma.

Hyd yn oed â'r cymorth ariannol hwn, gall yr amserlenni sy'n gysylltiedig â sefydlu'r cynllun hwn olygu bod busnesau ar gau am fwy na mis cyn cael arian i dalu cyflogau staff. Ychydig iawn o gronfeydd wrth gefn sydd gan lawer o fusnesau yn y sectorau yr effeithir arnynt i dalu costau o'r fath yn y cyfamser. Gallai hyn olygu bod rhai busnesau'n penderfynu diswyddo gweithwyr, neu ddim yn gallu talu eu staff yn ystod y cyfnod hwn.

[12] Ffynhonnell: GBTS, 2019. Dadansoddiad mewnol

[13] *FT (cyhoeddwyd 09/04/21) - [Nightclub nightmare: industry fears for its post-Covid future]*

[14] Diffiniwyd SIC2007 cod 2-ddigid (56) Gweithgareddau gwasanaeth Bwyd a Diod hy bwytai, caffis, bwyd tecawê, tafarndai / bariau, clybiau, ac arlwyo ar gyfer digwyddiadau

Mae cyflogeion yn y sector hwn yn fwy tebygol o fod ar gyflog isel gyda llawer o staff yn ennill y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu ychydig mwy na hynny. Mae pryderon wedi cael eu codi ynglŷn ag effaith niweidiol y coronafeirws ar gyllid aelwydydd tlotach, yn enwedig rhai lle mae eu haelodau'n gweithio mewn sectorau sydd wedi cau. Mae'r aelwydydd hyn yn llai tebygol o allu lleihau eu gwariant yn sylweddol o ganlyniad i'r coronafeirws nag aelwydydd mwy cyfoethog, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn ariannu eu gwariant yn ystod y cyfyngiadau symud drwy ddefnyddio cynilion (a all fod yn gyfyngedig) a'u bod felly'n cronni dyledion.[15] Mae'r rhai sydd ar incwm is wedi bod yn fwy tebygol o weld eu hincwm yn disgyn, ac mae gweithwyr ar gyflogau is wedi bod yn fwy tebygol na'r rhai sydd ar gyflogau uwch o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu wedi colli eu swyddi.[16]

Oherwydd natur clybiau nos mae'n bosibl y bydd llawer o'r galw (a'r refeniw cysylltiedig) sydd wedi'i golli ers i'r cyfyngiadau gael eu rhoi ar waith wedi cael ei golli heb fodd ei adfer ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Mae'r busnes a gollwyd yn y sector hwn yn annhebygol o gynyddu a chael ei ryddhau (galw wedi cronni) mewn ffyrdd y mae modd eu rhagweld ar gyfer sectorau eraill fel rhai sydd, er enghraifft, yn gwerthu nwyddau a/neu wasanaethau.

**Cyflogaeth ac Effaith ar Incwm**

I lawer o bobl yng Nghymru, mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith niweidiol ar incwm eu haelwyd. Mae tystiolaeth o arolygon yn awgrymu bod 14% o bobl mewn sefyllfa waeth yn ariannol o ganlyniad i'r coronafeirws, ac mae 21% yn dweud eu bod mewn sefyllfa well.[17] Mae pryderon wedi cael eu codi ynglŷn ag effaith niweidiol y coronafeirws ar gyllid aelwydydd tlotach, yn enwedig rhai lle mae eu haelodau'n gweithio mewn sectorau sydd wedi cau. Mae'r aelwydydd hyn yn llai tebygol o allu lleihau eu gwariant yn sylweddol o ganlyniad i'r coronafeirws nag aelwydydd mwy cyfoethog, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn ariannu eu gwariant yn ystod y cyfyngiadau symud drwy ddefnyddio cynilion (a all fod yn gyfyngedig) a'u bod felly'n cronni dyledion.[18] Mae'r rhai sydd ar incwm is wedi bod yn fwy tebygol o weld eu hincwm yn disgyn, ac mae gweithwyr ar gyflogau is wedi bod yn fwy tebygol na'r rhai sydd ar gyflogau uwch o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu wedi colli eu swyddi.[19]

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae clybiau nos yn ardaloedd lle mae'n rhaid i weithwyr a defnyddwyr deithio i safleoedd busnes er mwyn gweithredu. Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo teithio llesol fel dewis yn lle mathau eraill o deithio yn ystod pandemig y coronafeirws a thu hwnt, mae cau'r sector yn siŵr o leihau'r rhesymau i aelodau'r cyhoedd deithio mewn cerbyd preifat. Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r

[15] Bangham & Leslie (2020) Rainy days: An audit of household wealth and the initial effects of the coronavirus crisis on saving and spending in Great Britain. Resolution Foundation.

[16] Resolution Foundation: Incymau, cynilion a gwariant drwy argyfwng y coronafeirws Tachwedd 2020

[17] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau'r Coronafeirws: Wythnos 64: 21-27 Mehefin 2021.

[18] Bangham & Leslie (2020) Rainy days: An audit of household wealth and the initial effects of the coronavirus crisis on saving and spending in Great Britain. Resolution Foundation.

[19] Resolution Foundation: Incymau, cynilion a gwariant drwy argyfwng y coronafeirws Tachwedd 2020

effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith fach wrth gymharu â'r misoedd diwethaf. Mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

RHYNGDDIBYNIAETHAU GALLUOGWYR

*Trafnidiaeth*

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15 yn cofnodi'r dull o deithio a ddefnyddir gan bobl i deithio i dafarndai, caffis ac ati. Dangosodd fod 47% (heb fod yn gyfan gwbl) o bobl yn defnyddio car fel dull arferol o deithio i dafarndai, caffis a bwytai, roedd 43% yn cerdded, roedd 8% yn defnyddio bysiau ac roedd 9% yn defnyddio tacsis. Mae hyn yn codi mater posibl y mae angen ei ystyried, ac mae hynny'n ymwneud ag effaith y gostyngiad canlyniadol yn y defnydd o dacsis.

ASESIADAU O'R EFFAITH

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn dileu'r cyfyngiadau ar deithio a fydd wedi effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i fannau awyr agored nad ydynt yn ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chydraddoldeb mynediad.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oed (meddwl am wahanol grwpiau oedran)* | Negyddol: Mae carfannau iau o'r boblogaeth yn fwy tebygol o lawer o weithio mewn clybiau nos yng Nghymru na charfannau hŷn, felly gallai eu cau arwain at effeithiau negyddol o ran dosbarthiad. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 46% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli). | |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| | ddirywiad economaidd.<br><br>Cadarnhaol: Mae'r risgiau o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal Covid-19 yn cynyddu ag oedran. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector. | | |
| *Anabledd (meddwl am wahanol fathau o anabledd)* | Negyddol: Mae'r boblogaeth anabl yng Nghymru yn cynrychioli cyfran uwch o'r cyflogeion yn y sector lletygarwch nag yn y gweithlu'n gyffredinol, | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod cyfran y bobl anabl sy'n gweithio yn y sector lletygarwch yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd, gyda 19% o'r gweithlu yn cael eu hystyried yn anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach). | |
| *Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl Drawsryweddol)* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a* | Negyddol: Mae'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 12% o | |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| *Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)* | weithio yn y sector lletygarwch yng Nghymru na'r boblogaeth wyn, felly gallai cau clybiau nos gael effeithiau dosbarthiadol negyddol.<br><br>Cadarnhaol: Gall pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wynebu risg anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal Covid-19, | weithwyr mewn tafarndai a bwytai yng Nghymru yn dod o gefndir BAME (a dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli). | |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | Amh | Amh |
| *Rhyw / Rhywedd* | Negyddol: mae cyfran y gweithwyr yn y sector sy'n fenywod ychydig yn uwch nag ar gyfer gweithlu Cymru yn gyffredinol. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 50% o weithwyr mewn lletygarwch yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru. | |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)* | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | Amh | Amh |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | Amh | Amh |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | Heb ganfod effaith wahaniaethol | | |
| *Aelwydydd incwm isel* | negyddol: Bydd effaith negyddol ar unigolion sy'n cael eu cyflogi yn y clybiau nos neu sy'n dibynnu ar yr economi nos, yn enwedig y rheini sydd ar gontract achlysurol | Mae data dros dro o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2 ddigid yng Nghymru. Ar gyfer **Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod** (cod SIC 56), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.28 – £3.91 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.19. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £197.30 yw'r canolrif – tua £243.50 yn is na chanolrif Cymru.<br><br>Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod **o leiaf** 80% o weithwyr **Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod** yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru. | |

***Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig***

Prif bwrpas y cyfyngiadau a’r gofynion sy’n gysylltiedig â’r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a’r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Ni nodwyd unrhyw effaith ar blant.

*Y Gymraeg*

Ni nodwyd unrhyw effaith mewn perthynas â'r Gymraeg.